CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# Adroddiad Blynyddol gan Gynghorydd 2017/18

Hwn yw'r adroddiad gan y Cynghorydd isod ar ei weithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid i unrhyw bwrpas arall. Safbwyntiau'r Cynghorydd unigol yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt, o angenrheidrwydd, yn adlewyrchu barn Cyngor Sir Ynys Môn.

**Cynghorydd: Margaret Murley Roberts**
**Grŵp: Plaid Cymru** **Ward: Lligwy**

## 1 - Rôl a Chyfrifoldebau

Gweler isod

| Rhwng Mai 2017 a Mawrth 2018, eisteddais ar y prif bwyllgorau / is-bwyllgorau canlynol: | Nifer y cyfarfodydd a drefnwyd | Nifer a fynychwyd |
|---|---|---|
| Cyngor | 9 | 8 |
| Pwyllgor Apeliadau | 0 | 0 |
| Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu | 6 | 4 |
| Panel Rhiantu Corfforaethol | 4 | 4 |
| Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio | 6 | 5 |
| Mae'r ystadegau a ddarperir yn berthnasol yn unig i'r pwyllgorau a restrir yn y tabl hwn. Nid yw'r ystadegau'n cynnwys presenoldeb mewn cyfarfodydd eraill sy'n ymwneud â gwaith y Cyngor Sir. Gall trefniadau cyflogaeth Aelod hefyd effeithio ar lefelau presenoldeb.<br><br>*Gall presenoldeb amrywio oherwydd natur gwaith a chyfrifoldebau aelodau - fel deilydd portffolio, cadeirydd pwyllgor neu fel cynrychiolydd y Cyngor ar gyrff allanol, er enghraifft.* | | |

Rwyf yn aelod o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn ac wedi mynychu 5 allan o'r 6 cyfarfod a drefnwyd. Hefyd yn aelod o bwyllgor Grantiau'r Ymddiriedolaeth ac wedi mynychu'r 1 cyfarfod a drefnwyd.

| Rwy'n cynrychioli'r Cyngor ar y cyrff allanol canlynol: | Nifer y cyfarfodydd a drefnwyd | Nifer a fynychwyd |
|---|---|---|
| Pencampwr Amrywiaeth | 0 | 0 |
| Cwmni CYNNAL AGM | 1 | 1 |
| Llywodraethwr – Ysgol Uwchradd Syr Thomas Jones, Amlwch | 2 | 1 |
| Llywodraethwr – Ysgol Gynradd Moelfre | 2 | 2 |

## 2 - Gweithgareddau yn yr Etholaeth

Rwyf yn canolbwyntio ar fynychu Cyngor Cymuned Moelfre, lle rwyf yn darparu adroddiad ac yn adrodd yn fisol.

Wedi bod yn falch o roi cymorth a chyngor i drigolion y ward. Rwyf wedi ceisio bod ar gael un ai dros y ffôn neu drwy e-bost. Wedi helpu etholwyr a'u teuluoedd mewn gwahanol ffyrdd, e.e.

- **Gwasanaethau Cymdeithasol** – holi ar ran etholwyr am doiled lawr grisiau oherwydd cyflwr iechyd.
- **Cynllunio** – wedi ymateb i geisiadau i gyfathrebu gyda'r adran gynllunio, un ai i wrthwynebu neu i ddarganfod fwy o fanylion.
- **Priffyrdd** - ymholiadau ynglŷn â rhoi drych i weld traffig, gosod cwteri a gôr-yrru.
- **Amgylchedd** – Delio hefo cwynion am lwybr yr arfordir (difrod ar ôl stormydd) Cwynion am goed yn cael eu torri ym Menllech. Gweld cyflwr traeth Moelfre ar ôl storm a chysylltu gyda gwahanol adrannau i holi am glirio'r difrod.
- **Tai** – Cysylltu gyda'r adran dal i egluro sefyllfa person a oedd yn amlwg angen help.

## 3 - Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

Fel aelod o'r Panel Sgriwtini rwyf wedi cael y fraint o gyfarfod nifer o Benaethiaid Pennaeth ysgolion Môn a hefyd Cadeiryddion Llywodraethwyr. Teimlaf fy mod wedi dysgu llawer yn y flwyddyn – ond eto fy mod eisiau ac angen dysgu mwy.

## 4 - Dysgu a Datblygu

Rwyf wedi mynychu'r mentrau dysgu a datblygu canlynol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (gwybodaeth wedi'i darparu gan Gyngor Sir Ynys Môn):

| | |
|---|---|
| Sesiwn Briffio – Cynllun Corfforaethol a'r Côd | 18/05/2017 |
| Cyllid gan gynnwys Cyllidebu a Thrysorlys | 25/05/2017 |
| Y Cyfansoddiad | 05/06/2017 |
| Deddf Tai | 06/07/2017 |
| Hyfforddiant Materion Cynllunio | 21/07/2017 |
| Cwestiynu effeithiol yn Sgriwtini | 04/12/2017 |
| Cyflwyniad i e-ddysgu | 10/01/2018 |
| Hyfforddiant ACE | 28/03/2018 |
| Sesiynau Briffio Aelodau ( 9 allan o 12 ) | Mai 2017 – Mawrth 2018 |
| *Gall presenoldeb amrywio oherwydd natur gwaith a chyfrifoldebau aelodau - fel deilydd portffolio, cadeirydd pwyllgor neu fel cynrychiolydd y Cyngor ar gyrff allanol, er enghraifft.* | |

Fel Aelod newydd rwyf wedi bod yn canolbwyntio ar ddysgu a hyfforddiant i fy ngalluogi i wneud y swydd yn iawn.

## 5 – Gweithgareddau a Materion Eraill

Rwyf wedi bod yn falch o roi cymorth i fy nghymuned. Mae'r flwyddyn hon wedi bod yn daith ddysgu enfawr, ond yn daith yr wyf wedi ei mwynhau. Edrychaf ymlaen at roi cymorth a chefnogaeth i drigolion fy ward yn y dyfodol.

Ceir rhagor o wybodaeth amdanaf yma:

http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/mgUserInfo.aspx?UID=288&LLL=1

| | |
|---|---|
| **Y Cynghorydd Margaret Murley Roberts** | **Ebrill 2018** |